CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd /*Chair:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St Andrews Road, Bridgend, CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
ffôn/tel: 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: ParryA274@hwbcymru.net
ffôn/tel: 07779 168084

10 Chwefror 2025

Annwyl Glerc CYS / CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwyf yn ysgrifennu i wahodd CYSau / CYSAGau i gynnig enwebiadau am aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'ch CYS / CYSAG yn trafod unrhyw enwebiadau y dymunant eu cynnig. Sylwer, os yw'ch CYS / CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith yn barod, ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, yn ôl Cyfansoddiad CCYSAGauC, ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYS / CYSAG chi y tro hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eich atal rhag enwebu person o CYS / CYSAG arall.

Fe sylwch yn y rhestr aelodau sydd ynghlwm fod tri lle ar gael. Mae'n hanfodol fod CCYSAGauC yn cadw aelodaeth lawn ac amrywiol er mwyn parhau â'i waith da. Gofynnwn i chi felly rhoi ystyriaeth ystyrlon cais hwn a gobeithio y derbyniwn rai enwebiadau.

Ynghlwm y mae ffurflen y dylid ei llenwi a'i dychwelyd i mi ar y cyfeiriad e-bost /post uchod erbyn **dydd Gwener 28 Mawrth 2025**. Byddaf yn anfon y rhestr enwebiadau i chi cyn **dydd Gwener 2 Mai 2025**, fel y gall eich CYS / CYSAG eu trafod yng nghyfarfod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

Sylwer y bydd disgwyl i'r enwebeion fod ar gael i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor gwaith yn rheolaidd os ydynt yn llwyddiannus yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir,

A Parry

Alice Parry

Ysgrifennydd i Gymdeithas CCYSAGauCymru